



Cais y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am dystiolaeth Gwasanaethau Offthalmoleg yng Nghymru

Mai 2025

Mae'r papur hwn yn cynnwys tystiolaeth Llywodraeth Cymru i lywio ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Wasanaethau Offthalmoleg yng Nghymru.

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	3
2.	Diwygio sefydliadol ac effeithlonrwydd gwasanaethau	5
3.	Ehangu a hyfforddi'r gweithlu.....	7
	Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol	8
4.	Gwelliannau i ysbytai a seilwaith	10
	Seilwaith ysbytai a chlinigol	10
	Seilwaith Digidol.....	10
	Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI).....	11
5.	Rhwydweithiau clinigol a mynediad cyfartal at ofal	12
	Strategaeth Glinigol Genedlaethol ar gyfer Offthalmoleg	12
	Dulliau rhanbarthol o ddarparu gwasanaethau offthalmoleg a lleihau rhestrau aros hir	13
	Diwygio contractau optometreg	14
6.	Goruchwylio a gweithredu	16
7.	Perfformiad ac atebolrwydd	18
	Trosolwg o berfformiad	18
	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	21
	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	22
	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	22
	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	23
	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	23
	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.....	24

1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall colli golwg a bod colli golwg yn cael effaith fawr ar les pobl yng Nghymru. Mae'r adroddiad [Time to Focus](#) a gyhoeddwyd yn 2020 gan Fight for Sight, elusen ymchwil y DU, yn dangos effaith bersonol a chostau ehangach colli golwg. Mae Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB) yn amcangyfrif y bydd bron i un o bob pump o bobl yn colli eu golwg yn barhaol yn ystod eu bywydau - yng Nghymru, amcangyfrifir y gallai 3.5% o'r boblogaeth fod yn byw gyda chyflwr colli golwg.

Disgwylir i'r galw am wasanaethau gofal llygaid gynyddu'n sylweddol dros y 10 mlynedd nesaf wrth i'r boblogaeth barhau i heneiddio. Bydd hyn yn parhau i herio mynediad amserol at wasanaethau gofal llygaid arbenigol os nad yw gwasanaethau'r GIG yn ymateb ac yn esblygu.

Mae Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth y GIG yn gweithio'n agos gyda byrddau iechyd i'w helpu i gyflawni'r trawsnewidiad sydd ei angen i'r dull y darperir gwasanaethau er mwyn gwella amseroedd aros a chanlyniadau i gleifion.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Adolygiad Allanol o Wasanaethau Gofal Llygaid yng Nghymru gan Andy Pyott, offthalmolegydd ymgynghorol o GIG Ucheldir yr Alban ar ran Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr yn ystod 2020 a dechrau 2021. Cyhoeddwyd yr adroddiad ddiwedd 2021, ac roedd nifer o'r argymhellion yn canolbwyntio'n benodol ar wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r gweithlu.

Yn dilyn yr adroddiad allanol hwn, cynhaliwyd yr uwchgynhadledd weinidogol gyntaf ar gyfer offthalmoleg ym mis Tachwedd 2022, lle cafodd GIG Cymru, Gweithrediaeth y GIG a chlinigwyr eu herio i sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn y system bresennol er mwyn gwella perfformiad a llunio strategaeth a fyddai'n trosi argymhellion yr adroddiad allanol yn atebion ymarferol.

Ar 14 Hydref 2024, cynhaliodd Llywodraeth Cymru uwchgynhadledd weinidogol bellach ar offthalmoleg gyda'r nod o wella mynediad at wasanaethau gofal llygaid, atal achosion o golli golwg a niwed anadferadwy, a gosod disgwyliadau perfformiad ar gyfer byrddau iechyd. Roedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- mynd i'r afael â'r rhwystrau i wella gwasanaethau
- integreiddio gwasanaethau optometreg gofal sylfaenol i leihau rhestrau aros
- gweithio rhanbarthol ar draws is-arbenigeddau mawr, gan gynnwys glawcoma, cataractau a retina meddygol
- datblygu a gwella llwybrau
- trawsnewid digidol.

Mae angen i fyrddau iechyd roi cynlluniau lleol a rhanbarthol ar waith i ateb y galw am wasanaethau gofal llygaid, gan roi blaenoriaeth i'r rhai sydd â risg glinigol uchel trwy integreiddio a defnyddio optometryddion gofal sylfaenol a chymunedol yn effeithiol. Mae'r angen am berfformiad gwell a chyson gan fyrddau iechyd i sicrhau lefelau cyfartal o ofal i bobl ledled Cymru yn hanfodol. Rhaid i fyrddau iechyd fynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd yn y system, gan weithio ar y cyd ac ar lefel ranbarthol ar draws meysydd gwasanaeth lle mae'r galw'n uchel er mwyn cyflawni hyn.

2. Diwygio sefydliadol ac effeithlonrwydd gwasanaethau

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth optometreg newydd a ddaeth i rym rhwng mis Hydref 2023 a mis Ebrill 2024, gan osod gofynion newydd ar fyrddau iechyd ac ar eu rhan, optometryddion gofal sylfaenol, i ddarparu Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol GIG Cymru (WGOS).

Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn ehangu cwmipas y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan optometreg gofal sylfaenol, gan sicrhau bod modd rheoli mwy o gleifion yn y gymuned, a mynd ati'n fwriadol i gynyddu'r capasiti ar gyfer gwasanaethau llygaid mewn ysbytai. O dan y rheoliadau WGOS newydd, mae'n rhaid i bob practis optometrïg sy'n darparu gwasanaethau gofal llygaid y GIG wneud y canlynol:

- ymgorffori cyngor ar atal a lles yn ogystal â chynllun rheoli cleifion unigol a chyngor hunanofal i gleifion
- cynnig archwiliad iechyd llygaid i gleifion sydd angen sylw brys neu rai sydd â risg uwch o ddatblygu clefyd llygaid
- sicrhau bod oriau clinigol craidd ar gael gydol y dydd ar gyfer cleifion sydd angen mynediad at wasanaethau craidd
- ehangu'r ddarpariaeth cymorth symudol ar gyfer cleifion cymwys
- darparu teclynnau optegol am ddim i gleifion cymwys.

Trwy wneud y darpariaethau rheoleiddio hyn yn orfodol, bydd modd canfod mwy o gyflyrau iechyd llygaid yn gynharach a sicrhau'r un lefel o gymorth clinigol ledled Cymru.

Llwybrau optometreg

Mae'r llwybrau optometreg newydd yn lleihau'r galw am wasanaethau offthalmoleg (a meddygon teulu) trwy leihau nifer yr atgyfeiriadau i ofal eilaidd. Yn ogystal, mae'r llwybrau yn gwella capasiti offthalmoleg trwy symud gwasanaethau a monitro cleifion risg isel o fewn optometreg gofal sylfaenol.

Mae WGOS 3 yn cynorthwyo darpariaeth cymhorthion golwg gwan, gan gyfeirio cleifion at wasanaethau eraill a chynnig gwybodaeth am fywyd bob dydd a chyflyrau llygaid.

Mae WGOS 4 yn galluogi cleifion a fyddai wedi cael eu hatgyfeirio at wasanaethau llygaid mewn ysbyty am asesiadau meddygol o'r retina a glawcoma, i gael eu hatgyfeirio at optometrydd â chymwysterau uwch am asesiad pellach, o fewn ardal y clwstwr gofal sylfaenol.

Mae WGOS 5 yn darparu "argyfwng llygaid" o fewn optometreg gofal sylfaenol er mwyn canfod, rheoli a rhagnodi ar gyfer cleifion.

Nid yw'n orfodol i bob practis offthalmig ddarparu gwasanaethau uwch-glinigol WGOS 3-5; fodd bynnag, mae'n orfodol i fyrddau iechyd ddarparu'r gwasanaethau hyn ar gyfer cleifion yn ardal eu bwrdd iechyd.

Mae'r broses o weithredu'r llwybrau gwasanaethau clinigol uwch yn cael ei goruchwyllo gan Bwyllgor Gofal Llygaid Cymru, sydd wedi'i sefydlu mewn deddfwriaeth, ac sydd ar hyn o bryd yn gyrru'r gwaith o ddarparu gwasanaethau uwch o fewn optometreg gofal sylfaenol. Cefnogir y Pwyllgor gan Arweinydd Clinigol Cenedlaethol GIG Cymru a Chynghorwyr Optometrig byrddau iechyd lleol, gan sicrhau dull gweithredu Unwaith i Gymru.

Caiff cymorth gweinyddol ychwanegol hefyd ei ddarparu gan Reolwyr Contract optometreg newydd y byrddau iechyd, a benodir er mwyn darparu a chyflwyno gwasanaethau yn gyflym a'u monitro'n barhaus.

3. Ehangu a hyfforddi'r gweithlu

Fel rhan o'r Cynllun Comisiynu Addysg a Hyfforddiant 2025-26, dyrannwyd £0.658m ar gyfer gwasanaethau optometreg i gynyddu'r cyfleoedd i optometryddion ddarparu gwasanaethau gwell yn unol â *Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol* (2022) Llywodraeth Cymru ar sail diwygiadau contractau optometreg (2023-24).

Cyflwynwyd newidiadau i brosesau rheoleiddio (Adolygiad o Addysg a Hyfforddiant, y Cyngor Optegol Cyffredinol 2021) a newidiadau i addysg a hyfforddiant ar lefel israddedig ac ôl-radd er mwyn hwyluso dulliau newydd o weithio'n glinigol a chefnogi optometryddion newydd gymhwyso i ennill sgiliau a chymwysterau ychwanegol.

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) wedi comisiynu dros 450 o leoedd ar gyfer cymwysterau uwch i optometryddion ac optegwyr cyflenwi yng Nghymru - cynnydd o 20% yn 2023-24. Mae hyn yn cefnogi ac yn hwyluso'r broses o symud gwasanaethau o wasanaethau llygaid mewn ysbytai i optometreg gofal sylfaenol.

Mae argymhellion optometreg eraill y cytunwyd arnynt fel rhan o Gynllun Comisiynu Hyfforddiant ac Addysg 2025-26 i'w gweld yn y tabl isod:

Optometreg	Lleoedd hyfforddi 2025-2026	Cyd-destun
Presgripsiynu Annibynnol (Optometryddion)	22	- Mae'r llwybr Presgripsiynu Annibynnol bellach ar waith ledled Cymru, ac mae'n golygu bod modd symud cleifion o ofal eilaidd i ofal sylfaenol. - Y nod yw recriwtio o bob Bwrdd Iechyd mewn niferoedd cyfartal er mwyn sicrhau tegwch o ran gwasanaethau i gleifion.
Tystysgrif Uwch mewn Retina Meddygol (lefel 7)	7	- Mae nifer sefydlog o gymwysterau arbenigol i sicrhau bod arbenigedd ar gael ledled Cymru. - Oherwydd demograffeg poblogaeth, rhoddir blaenoriaeth o ran lleoedd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd

		lechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan.
Tystysgrif Broffesiynol mewn Retina Meddygol (lefel 7)	14	• Diolch i Lwybr Retina Meddygol newydd Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS), mae modd symud cleifion o ofal eilaidd i ofal sylfaenol. • Mae cymwysterau'n cael eu comisiynu gan bob Bwrdd Iechyd a'u neilltuo i glystyrau sydd â nifer fach o optometryddion sy'n meddu ar y cymhwyster. • Oherwydd demograffeg y boblogaeth, rhoddir blaenoriaeth o ran lleoedd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.
Tystysgrif Uwch mewn Glawcoma (lefel 7)	7	• Mae nifer sefydlog o gymwysterau arbenigol i sicrhau bod arbenigedd ar gael ledled Cymru. • Oherwydd demograffeg y boblogaeth, rhoddir blaenoriaeth o ran lleoedd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.
Tystysgrif Broffesiynol mewn Glawcoma (lefel 7)	14	
Diploma mewn Glawcoma	7	
Tystysgrif Golwg Gwan	20	• Mae'r gwasanaeth hwn wedi cael ei ehangu er mwyn cynyddu nifer y practisau sy'n gallu cynnig gwasanaethau Golwg Gwan.

Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol

Fel rhan o'r gwaith negodi teirochrog blynyddol ar gontractau, cytunir ar ymrwymïadau penawdau'r telerau ar gyfer meysydd sydd angen rhagor o waith y tu allan i'r gwaith negodi teirochrog ffurfiol. Cafwyd budd wrth wneud hyn, gan sicrhau dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac argymhellion strwythuredig i'w hystyried ymhellach.

Yn ystod y gwaith negodi ffurfiol yn 2024, cytunodd y timau negodi optometreg teirochrog i lunio Cytundeb Penawdau'r Telerau ar gyfer meysydd gwaith i'w datblygu gan gynnwys y gweithlu.

Bydd y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol yn cydlynu'r broses o ddatblygu strategaeth ar gyfer y gweithlu gofal llygaidd ac yn pwysu a mesur opsiynau. Bydd

y rhaglen yn arwain grŵp, a chylch gorchwyl y grŵp hwnnw fydd sicrhau bod gweithlu digon cadarn, cynaliadwy, medrus a symudol ar gael i ddarparu gwasanaethau gofal llygaid.

4. Gwelliannau i ysbytai a seilwaith

Mae buddsoddiadau cyfalaf yn y seilwaith ysbytai (gan gynnwys digidol) i gefnogi gwasanaethau yn rhan o'n buddsoddiad. Ers 2017-18, darparwyd ychydig o dan £12m i fyrddau iechyd, ymddiriedolaethau'r GIG a darparwyr hyfforddiant.

Seilwaith ysbytai a chlinigol

Defnyddiwyd y buddsoddiad ar gyfer microsgopau newydd (£0.128m), efelychyddion (£0.478m), cynaliadwyedd a chyfarpar gofal llygaid digidol (£9.8m), camerâu retinopathi diabetig (£0.740m) a chyfleuster hyfforddi ym Mhrifysgol Caerdydd (£0.758m).

Mae heriau'r seilwaith clinigol ar gyfer darparu gwasanaethau offthalmoleg effeithiol ac effeithlon wedi'u nodi fel rhan o'r strategaeth offthalmoleg genedlaethol. Bydd rhwydwaith gweithredu clinigol offthalmoleg yn disgrifio nodweddion "gofod/model clinigol da". Yna bydd y model seilwaith gorau yn cael ei ddefnyddio gan bob bwrdd iechyd i asesu a nodi eu hanghenion ailgynllunio er mwyn helpu i ddatblygu eu llwybr offthalmoleg gorau.

Seilwaith Digidol

Mae angen platfform digidol i gefnogi cyflymder y newid wrth rannu a throsglwyddo gofal rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Dechreuwyd y Rhaglen Gofal Llygaid Digidol (DECP) yn 2020, dan ofal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, fel rhaglen genedlaethol. Cwmpas y rhaglen oedd digideiddio'r broses atgyfeirio o leoliadau offthalmoleg gofal sylfaenol i leoliadau offthalmoleg gofal eilaidd, yn ogystal â chyflwyno'r Cofnod Electronig am Gleifion (EPR) mewn lleoliadau gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Hyd yma, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi defnyddio'r EPR ledled ardal y bwrdd iechyd, ac mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi'i ddefnyddio yn rhannol.

Trosglwyddwyd y DECP yn ffurfiol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ym mis Mehefin 2023 er mwyn helpu i resymoli'r gwaith o gynnal rhaglen ddigidol genedlaethol. Bu cyfnod o aros, ystyried a gwerthuso rhaglen beilot Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gan gynnwys trosglwyddo'r rhaglen yn ôl i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn 2024. Mae bwrdd rhaglen newydd wedi'i sefydlu, a gyda chymorth Iechyd a Gofal Digidol Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae'r gwaith o

gyflwyno'r platfform digidol wedi dechrau a bydd wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2026. Bydd hyn yn cefnogi'r broses o rannu delweddau digidol a gofal clinigol a rennir rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd.

Mae cyllid wedi'i nodi i helpu byrddau iechyd i gyflwyno'r platfform llygad agored a pharatoi ar gyfer atgyfeiriadau electronig fel rhan o'r Gronfa Buddsoddi mewn Rhaglenni Digidol (DPIF) ar gyfer 2025-26.

Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI)

Yn ddiweddar, datblygwyd dull gweithredu ar gyfer defnyddio deallusrwydd artiffisial ym maes gofal retinopathi diabetig, gan ddysgu'r gwersi o'r Alban er mwyn ystyried dichonoldeb cyflwyno'r dull ledled Cymru a Lloegr. Bydd y canllawiau clinigol a ddarparwyd gan y Rhwydwaith Gweithredu Clinigol Offthalmoleg yn allweddol wrth ddatblygu'r weithdrefn weithredol sefydlog ar gyfer Cymru i'w hystyried yn y dyfodol.

5. Rhwydweithiau clinigol a mynediad cyfartal at ofal

Strategaeth Glinigol Genedlaethol ar gyfer Offthalmoleg

Cyhoeddwyd y [Strategaeth Glinigol Genedlaethol ar gyfer Offthalmoleg](#) ym mis Hydref 2024. Er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn y strategaeth, cynhaliwyd nifer o uwchgynadledau gweinidogol. Cynhaliwyd y diweddaraf ym mis Hydref 2024.

Mae'r Strategaeth Glinigol Genedlaethol ar gyfer Offthalmoleg yn amlinellu pedair thema strategol:

Diwygio sefydliadol – gwneud y gorau o'r gweithlu

Rhwydweithiau clinigol – i ddarparu gofal cyfartal

Trawsnewid llwybrau – gwella llwybrau o'r dechrau i'r diwedd a gwella profiadau cleifion

Model cyflawni cynaliadwy – gweithio ar draws ffiniau byrddau iechyd, yn sefydliadol ac yn ffisegol.

Mewn [datganiad ysgrifenedig](#) ar 20 Rhagfyr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad yn dilyn yr uwchgynhadledd weinidogol ddiwethaf, a oedd yn cynnwys yr ymrwymïadau a'r camau gweithredu canlynol:

- Byrddau iechyd i weithredu a monitro effaith y defnydd o lwybrau optometreg Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS) i leihau'r galw am ofal eilaidd a chynyddu capasiti.
- Byrddau iechyd, gyda chymorth y Rhwydwaith Gweithredu Clinigol, i fabwysiadu modelau llwybr integredig ar gyfer y llwybr glawcoma, offthalmoleg/optometreg retina meddygol a'r llwybr un stop ar gyfer cataractau.
- Byrddau iechyd i gynyddu'r capasiti i ymdrin â chataractau yn eu cynlluniau tymor canolig integredig yn unol â'u dadansoddiad o alw a chapasiti a chynllunio sut y gellir rhoi llawdriniaethau dwyochrog ar waith.
- Byrddau iechyd i ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiadau Cael Pethau'n lawn y Tro Cyntaf (GiRFT) cenedlaethol a lleol.

-
- Byrddau iechyd i symud tuag at roi rhestrau cymhlethdod cymysg ar raddfa fawr ar waith.
 - Y Rhwydwaith Gweithredu Clinigol i ddatblygu protocol safonedig ar gyfer rhoi gwybod am niwed yn seiliedig ar ganllawiau Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr a'i roi ar waith ym mhob bwrdd iechyd.
 - Llywodraeth Cymru i gyflymu'r broses o roi'r system cofnod electronig am gleifion ar waith er mwyn gwella dulliau cyfathrebu ac effeithlonrwydd rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd a gwella diogelwch cleifion.
 - Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i gynnal adolygiad o'r gweithlu er mwyn nodi bylchau ac anghenion ymhlith staff offthalmoleg ar bob lefel, gan gynnwys rolau anghlinigol.
 - Byrddau iechyd i sicrhau y defnyddir dulliau hygyrch i gyfathrebu â chleifion a bod llythyrau apwyntiadau yn cael eu hanfon mewn fformatau y gall cleifion eu darllen yn annibynnol.
 - Byrddau iechyd i ddatblygu achosion busnes yn amlinellu'r buddsoddiad sydd ei angen er mwyn sicrhau gwasanaethau offthalmoleg cynaliadwy, gan gynnwys gwelliannau i'r gweithlu ac ystadau.

Dulliau rhanbarthol o ddarparu gwasanaethau offthalmoleg a lleihau rhestrau aros hir

Darparwyd cyllid ychwanegol i leihau amseroedd aros hir ym maes gofal wedi'i gynllunio i fyrddau iechyd ym mis Hydref 2024. Mae'r cyllid hwn wedi cael ei ddefnyddio i leihau nifer y cleifion sy'n aros dros 104 wythnos am driniaeth. Roedd llawer o'r rhain am gataractau.

Disgwylir y bydd y buddsoddiad ychwanegol hwn wedi dileu'r holl achosion o bobl yn aros 104 wythnos yn ne Cymru, ac y bydd gostyngiad sylweddol wedi'i weld yng ngogledd Cymru. Er mwyn parhau â'r gwelliant hwn, mae rhagor o fuddsoddiad wedi'i ddarparu er mwyn i fyrddau iechyd ddarparu capasiti ychwanegol ar gyfer triniaethau cataract yn Chwarter un 2025-26, fel rhan o'r cynllun gofal wedi'i gynllunio ar gyfer 2025-26.

I lawer o wasanaethau, mae'n amlwg y gall datrysiad rhanbarthol fod yn ddull gweithredu effeithiol sy'n cydgrynhoi'r gweithlu, technoleg ac ystadau yn fwy effeithiol er mwyn ymateb i'r galw. Mae'r strategaeth offthalmoleg genedlaethol yn cefnogi dull gweithio rhanbarthol ar gyfer llawer o'i gyflyrau clinigol. Mae'r dull hwn wedi'i fabwysiadu yn y De-ddwyrain a'r Gorllewin. Ni fydd hyn yn disodli gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y GIG ond bydd yn fodd o drawsnewid gwasanaethau offthalmoleg ledled Cymru.

Defnyddir trefniadau llywodraethu rhanbarthol a ategir gan adroddiadau rhanbarthol i reoli darpariaeth rhanbarthol yn ogystal ag atebolrwydd byrddau iechyd unigol.

Bydd y cynllun gofal wedi'i gynllunio ar gyfer 2025-26 yn cefnogi trefniadau contractau rhanbarthol i ddarparu 20,000 o lwybrau cataractau llawn (cleifion allanol, diagnosteg a thriniaethau) wedi'u rhannu yn ôl y galw, gyda buddsoddiad ychwanegol yn rhanbarth y De-orllewin ar gyfer llwybr triniaeth yn unig. Bydd y cynllun hwn, ynghyd â chyflawni gweithgarwch craidd, yn lleihau amseroedd aros am driniaethau cataract yn sylweddol o dan 104 wythnos.

Bu rhywfaint o bryder yn y gymuned glinigol y gallai blaenoriaethu a chanolbwyntio ar fodel sector annibynnol ar gyfer triniaethau cataract roi gwasanaethau lleol mewn perygl. Nid yw hyn yn wir, gan fod gwasanaethau lleol yn parhau i fod yn ddull cyflawni hanfodol.

Yn ystod 2024-25, mae'r Rhwydwaith Gweithredu Clinigol wedi datblygu set o ganllawiau i hyrwyddo gofal cyfartal ledled Cymru, gan gynnwys datblygu protocolau rhyddhau cleifion Cymru gyfan, llwybrau hunanreoli ar gyfer cyflyrau y cytunwyd arnynt, triniaethau gan gynnwys prosesau rheoli dilynol ym maes gofal sylfaenol/cymunedol, templedi llythyrau apwyntiadau cleifion safonedig y cytunwyd arnynt, a rhestr o fetrigau adrodd allweddol.

Diwygio contractau optometreg

Mae effaith diwygio contractau optometreg yn cael ei theimlo ym mhob gwasanaeth, gyda phob practis yn gallu darparu gwasanaethau clinigol craidd, a nifer cynyddol o bractisau yn darparu gwasanaethau clinigol uwch yn y gymuned.

Ystyrir y diwygiadau i wasanaethau optometreg gofal sylfaenol yng Nghymru fel y rhai mwyaf blaengar yn y DU. Dyma'r ysgogiad allweddol ar gyfer defnyddio'r gweithlu cyfan yn llawn ar draws y llwybr gofal llygaid cyfan, trwy gyflwyno'r llwybrau yn raddol, a'u hategu gan gynlluniau pontio byrddau iechyd lleol.

Mae optometryddion sydd â chymwysterau ôl-radd ychwanegol yn rheoli, yn monitro ac yn trin mwy o gleifion ym meysydd gofal sylfaenol a gofal cymunedol, gan leihau'r baich ar feddygon teulu a chynyddu'r capasiti ar gyfer gwasanaethau gofal llygaid arbenigol mewn ysbytai. Cytunwyd ar godiad contract ychwanegol gwerth £3.9m ar gyfer 2024-25 er mwyn helpu i uwchsgilio'r proffesiwn optometreg fel y gellir cyflwyno'r newid i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned. Mae'n ychwanegol at yr ymrwymiad blynyddol o £30m i symud mwy o wasanaethau gofal llygaid allan o ysbytai a darparu gwasanaethau optometreg gofal sylfaenol yn y gymuned.

Mae optometryddion sydd â chymwysterau uwch ym meysydd glawcoma, retina meddygol a gofal llygaid aciwt yn galluogi'r rhai sy'n Presgripsiynu'n Annibynnol i gefnogi'r tri phrif faes hyn a lleihau'r baich ar feddygon teulu.

Nod y llwybrau gofal llygaid newydd yw sicrhau gostyngiad o 30,000 yn nifer yr atgyfeiriadau at wasanaethau llygaid gofal eilaidd, a rhyddhau 30,000 o apwyntiadau offthalmoleg ychwanegol trwy symud gwasanaethau a monitro cleifion risg isel fel rhan o wasanaethau optometreg gofal sylfaenol a gofal cymunedol.

Mae cyflwyno'r llwybr WGOS 5 (Presgripsiynu Annibynnol) ers mis Rhagfyr 2023 wedi arwain at dros 2,000 o achosion y mis yn cael eu trin gan optometryddion presgripsiynu annibynnol yn y gymuned. Cyn cyflwyno'r llwybr hwn, byddai'r cleifion hyn naill ai wedi mynd at eu meddyg teulu, neu'n fwy tebygol, byddent wedi cael eu trin gan adrannau argyfwng llygaid fel rhan o wasanaeth llygaid ysbyty.

Mae dadansoddiad o'r canlyniadau cynnar yn dangos bod practisau optometreg gofal sylfaenol wedi ymgymryd â dros 500 o apwyntiadau glawcoma a dros 700 o apwyntiadau retina meddygol yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn galendr hon. Wrth i fyrddau iechyd barhau i gyflwyno'r llwybr hwn, bydd y niferoedd yn parhau i gynyddu.

Rhan annatod o'r broses o ddatblygu a chyflwyno'r llwybrau optometreg newydd oedd y cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, GIG Cymru a Fforwm Golwg Cymru (WVF). Cyfrannodd aelodau WVF at y grwpiau gweithredu diwygio contractau, gan weithredu fel llais y claf ac eirioli dros gymorth anghlinigol i gleifion (Llwybr Cymorth Gofal Llygaid).

O ganlyniad i'r cydweithredu hwn, mae'r WVF wedi sicrhau, fel rhan o'r llwybrau optometreg, y bydd optometryddion yn ceisio cefnogi cleifion trwy ddarparu ffynonellau gwybodaeth a chymorth dibynadwy, neu gyfeirio/atgyfeirio cleifion at ffynonellau o'r fath, fel rhan o'u gofal llygaid. Bydd canllawiau lleol yn cael eu cyhoeddi gan Gyngor Cymru i'r Deillion.

6. Goruchwyllo a gweithredu

Mae Llywodraeth Cymru yn goruchwyllo'r gwaith o weithredu'r strategaeth offthalmoleg, trawsnewid gwasanaethau a pherfformiad drwy gyfarfodydd monitro gofal llygaid arbenigol gyda byrddau iechyd, a thrwy drefn archwiliadau dwfn yng nghyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig y bwrdd iechyd. Defnyddir yr archwiliadau dwfn a'r pwyntiau cyffwrdd i fesur cynnydd y bwrdd iechyd yn erbyn gweithredoedd Gwneud Pethau'n lawn y Tro Cyntaf a Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru, camau a amlinellir yn adroddiad yr uwchgynhadledd weinidogol ac argymhellion y strategaeth genedlaethol.

Mae offthalmoleg yn un o saith maes clinigol y rhaglen genedlaethol ar gyfer gofal a gynlluniwyd, ac mae'n cael ei arwain yn glinigol trwy rwydwaith gweithredu clinigol gyda chynrychiolaeth o'r holl fyrdau iechyd. Mae'r rhwydwaith gweithredu clinigol wedi datblygu cynllun gwaith blynyddol i drawsnewid cyflawni yn unol â mesurau effeithlonrwydd a chynhyrchiant sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Cyflwynir cynnydd yn erbyn y cynlluniau trawsnewid gan Fwrdd y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd, dan gadeiryddiaeth Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru, gyda Phrif Weithredwyr y GIG yn ei fynychu. Drwy'r fforwm hwn, mae'r byrddau iechyd yn cael eu dal i gyfrif ar y cyd am y gwaith o gyflawni'r strategaeth genedlaethol.

Mae canllawiau cynllunio cenedlaethol 2025-26 yn nodi nifer o ddisgwyliadau i bob bwrdd iechyd eu cyflawni – mae'r rhai sy'n ymwneud ag offthalmoleg yn cynnwys:

- **Gwella cyfraddau trin yn eu tro** – o ran trefnu apwyntiadau a thriniaeth
- **Effeithlonrwydd theatr/triniaethau** – niferoedd uwch ar restrau triniaethau
- **Ailgynllunio'r llwybr cataract** – dylai atgyfeiriadau fynd ar y rhestr yn uniongyrchol a dylid gwneud yr holl ofal ôl-driniaeth yn y gymuned oni bai bod rheswm clinigol
- **Canllawiau atgyfeirio a chanllawiau dilynol** – defnyddio model estynedig WGOS 4.

Mae cynnydd yn erbyn y rhain yn cael ei olrhain drwy'r Rhaglen Gofal a Gynlluniwyd.

Mae rôl Iechyd a Gofal Digidol Cymru wrth gyflwyno systemau TG yn cael sylw yn yr adran gwelliannau ysbytai a seilwaith. Ym mis Mawrth 2025, rhoddwyd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar lefel rhybudd 3 o ran perfformiad a chanlyniadau sy'n gysylltiedig â chyflawni rhaglenni mawr.

7. Perfformiad ac atebolrwydd

Mae rheoli perfformiad, uwchgyfeirio ac atebolrwydd yn parhau i fod yn rhan o gylch gorchwyl Llywodraeth Cymru. Mae byrddau iechyd yn cael eu dal i gyfrif gan Lywodraeth Cymru drwy gyfarfodydd perfformiad rheolaidd. Fel rhan o waith adrodd rheolaidd, mae byrddau iechyd yn cyflwyno data perfformiad a gasglwyd ac adroddiad gweithgaredd misol i Lywodraeth Cymru. Mae'r data hwn yn cael ei gyhoeddi ar-lein yn fisol ac mae'n cynnwys [cleifion sy'n aros am apwyntiadau offthalmoleg cleifion allanol](#) a chyfanswm yr [apwyntiadau offthalmoleg cleifion allanol a fynychwyd](#).

Er mwyn gwella perfformiad, lleihau rhestrau aros a blaenoriaethu'r rhai sydd mewn perygl uchel, mae byrddau iechyd wedi rhoi gweithgareddau amrywiol ar waith gan gynnwys mentrau rhestrau aros, anfon cleifion allan at ddarparwyr trydydd sector neu ranbarthol, sicrhau gofod/capaciti theatr ychwanegol dros dro/yn y tymor byr, cynnal clinigau ar benwythnos a symud cleifion sydd mewn cyflwr meddygol addas i lwybrau optometreg Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS).

Mewn ymateb i'r heriau y mae byrddau iechyd yn eu hwynebu gydag amseroedd aros hir ar gyfer gofal a gynlluniwyd, mae'r byrddau iechyd canlynol wedi eu codi i lefel uwchgyfeirio oherwydd perfformiad gwael: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Yn ddiweddar, mae Byrddau Iechyd Cwm Taf Morgannwg, Hywel Dda a Phrifysgol Bae Abertawe i gyd wedi cael eu hisgyfeirio i lefel 3 ar gyfer amseroedd aros gofal a gynlluniwyd ac mae Byrddau Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bae Abertawe ar darged i ddarparu dim un llwybr agored gydag amseroedd aros o fwy na 104 wythnos a dim un llwybr gydag amseroedd aros o fwy na 52 wythnos am apwyntiad cyntaf fel claf allanol erbyn diwedd mis Mawrth.

Fel rhan o'u fframweithiau uwchgyfeirio unigol, mae offthalmoleg wedi'i amlygu fel maes pryder sydd angen ei wella.

Trosolwg o berfformiad

Yn 2019, Cymru oedd y genedl gyntaf i gyflwyno targedau gofal llygaid newydd o ran risg glinigol i adrannau offthalmoleg ysbytai, er mwyn blaenoriaethu triniaeth i'r rhai sydd â'r risg fwyaf o golli eu golwg. Mae mesurau gofal llygaid ar

gyfer cleifion allanol y GIG wedi'u cynllunio i ddarparu fframwaith ar gyfer cleifion newydd a dilynol, yn seiliedig ar flaenoriaeth a brys y gofal sydd ei angen ar bob claf, ac maent yn cael eu hadrodd yn ychwanegol at yr amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth cyfredol. Mae'r data ystadegol cenedlaethol ar amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth a gyhoeddir bob mis ar gyfer llwybrau aros cleifion newydd yn unig. Mynegwyd pryder gan yr holl randdeiliaid am y risg o niwed yn sgil oedi wrth aros am driniaeth barhaus yn cael ei golli trwy fesur amseroedd mynediad ar gyfer llwybrau newydd yn unig. Arweiniodd hyn at gyflwyno'r mesurau gofal llygaid cenedlaethol. Prif fwriad y mesurau yw sicrhau'r canlynol:

- Bydd gan bob claf sy'n cael atgyfeiriad i'r ysbyty ar gyfer offthalmoleg uchafswm amser aros sy'n seiliedig ar asesiad clinigol o'i gyflwr a'i les; a
- Bydd pob claf offthalmoleg sydd angen adolygiad neu driniaeth barhaus rheolaidd yn cael ei weld o fewn cyfnodau a nodir yn glinigol, sydd hefyd yn seiliedig ar ei gyflwr a'i les, a dylid adolygu hynny ym mhob apwyntiad.


Ar ôl derbyn atgyfeiriad, dyrennir ffactor risg iechyd i bob claf, sy'n asesu'r risg o niwed sy'n gysylltiedig â chyflwr llygaid y claf os bydd y dyddiad adolygu targed yn cael ei golli. Gellir diwygio ffactor risg iechyd claf ar wahanol adegau yn ystod ei lwybr gofal llygaid. Mae'r categoreiddio yn digwydd fel a ganlyn:

- R1 – risg o niwed na ellir ei ddad-wneud neu ganlyniad andwyol sylweddol os yw'r dyddiad targed yn cael ei golli
- R2 – risg o niwed y mae modd ei ddad-wneud neu ganlyniad andwyol os yw'r dyddiad targed yn cael ei golli.
- R3 – dim risg o niwed sylweddol neu ganlyniad andwyol.

Y targed yw y dylai 95% o gleifion sydd wedi'u categoreiddio fel rhai R1 (risg o niwed na ellir ei ddad-wneud) gael eu gweld heb fod yn hwyrach na 25% y tu hwnt i'r targed aros. Mae canran y cleifion a ddosbarthwyd fel rhai R1 sy'n aros o fewn eu dyddiad adolygu targed am apwyntiad cleifion allanol dros y 3 mis diwethaf fel a ganlyn:

Mis	% o gleifion	Newid i'r mis blaenorol
Ionawr 2025	50.1%	+0.3%
Chwefror 2025	50.7%	+0.6%
Mawrth 2025	49.9%	-0.8%

Mae perfformiad yn parhau i fod yn is na'r lefelau gofynnol ac, fel y gwelir yn y siart canlynol, nid oes unrhyw fwrdd iechyd yn cyrraedd y safon genedlaethol:



Mae perfformiad gofal llygaid hefyd yn ddarostyngedig i dargedau Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth ac fel y nodwyd yn adran 5, defnyddiwyd cyllid ychwanegol i ostwng amseroedd aros hir mewn gofal a gynlluniwyd i leihau nifer y cleifion sy'n aros dros 104 wythnos am driniaeth. Derbyniodd sefydliadau yn ne-ddwyrain Cymru £7.4m ychwanegol yn 2024-25 ar gyfer y gwasanaeth offthalmoleg rhanbarthol. Dros y chwe mis diwethaf, mae nifer y llwybrau agored sy'n aros dros 104 wythnos wedi gweld gostyngiad o 79%, gyda'r rhai sy'n aros dros 104 wythnos am apwyntiad cleifion allanol cyntaf yn gostwng 80%.

Disgwylir y bydd y buddsoddiad ychwanegol hwn wedi dileu'r holl achosion offthalmoleg o aros 104 wythnos yn ne Cymru ac y bydd gostyngiad sylweddol yng ngogledd Cymru. Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa ar ddiwedd mis Mawrth 2025, heb unrhyw lwybrau 104 wythnos yng Nghwm Taf Morgannwg, Hywel Dda, Powys a Bae Abertawe.

Er mwyn parhau â'r gwelliant hwn, darparwyd buddsoddiad pellach i fyrddau iechyd i ddarparu capasiti cataractau ychwanegol yn Chwarter un 2025-26, fel rhan o'r cynllun gofal a gynlluniwyd ar gyfer 2025-26. Yn ne-ddwyrain Cymru, mae £3m arall ar gael ar gyfer 2025-26 a'r disgwyl yw y bydd gwelliannau pellach i amseroedd aros offthalmoleg ar draws de-ddwyrain Cymru.

Cyfanswm aros 104 wythnos	Medi -24	Hyd -24	Tach -24	Rhag -24	Ion-25	Chwe -25	Maw -25
BIP Aneurin Bevan	1,460	1,664	1,772	1,948	1,581	864	68
BIP Betsi Cadwaladr	1,046	1,008	1,061	1,075	1,005	934	675
BIP Caerdydd a'r Fro	1,662	1,623	1,636	1,751	1,708	784	477
BIP Cwm Taf Morgannwg	1,276	1,307	1,321	1,330	996	387	0
BIP Hywel Dda	388	438	376	397	364	222	0
BIA Powys	0	0	0	0	0	0	0
BIP Bae Abertawe	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	5,832	6,040	6,166	6,501	5,654	3,191	1,220

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bryderu am effaith amseroedd aros estynedig ar gyflwr clinigol cleifion ac mae wedi cyfarwyddo'r Rhwydwaith Gweithredu Clinigol ar gyfer offthalmoleg i ddatblygu a gweithredu protocol adrodd niwed safonol ar draws pob bwrdd iechyd yn seiliedig ar ganllawiau a osodwyd gan Goleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Mae'r bwrdd iechyd wedi cael trafferth cyrraedd y targed R1 ers ei sefydlu ac yn ei gynllun blynyddol mae wedi nodi y dull y bydd yn ei roi ar waith i wella. Mae hyn yn cynnwys ehangu capasiti therapi IVT (intravitreal) i liniaru'r sefyllfa hon, trwy gynyddu clinigau a staff arbenigol i ddarparu'r capasiti ychwanegol hwn a recriwtio staff arbenigol i gynyddu'r sylw a roddir i glawcoma. Nod y bwrdd iechyd yw sicrhau cydymffurfiaeth R1 o 65% erbyn mis Mawrth 2026.

Mae'r gwaith hwn yn dechrau cael effaith, gyda'r bwrdd iechyd yn adrodd canlyniadau sylweddol sy'n gysylltiedig â'i wasanaeth Presgripsiynu Annibynnol gyda llai na 5% o'r cleifion a welir drwy lwybr WGOS 5 yn cael eu hatgyfeirio at offthalmoleg a bron i 93% o'r holl gleifion yn cael eu rheoli'n annibynnol gan optometryddion yn y gymuned.

Fel rhan o'r gwaith parhaus i ostwng amseroedd aros 104 wythnos, cynhaliodd y bwrdd iechyd adolygiad manwl o alw a chapasiti ar ddechrau 2025 gyda'r nod o ostwng y sefyllfa 104 wythnos i sero erbyn diwedd Chwarter un 2025-26.

Yn 2024-25, derbyniodd y bwrdd iechyd £420,000 ychwanegol i gefnogi'r ymdrech i ostwng amseroedd aros offthalmoleg a chyflawni'r targed o sero llwybrau agored erbyn diwedd mis Mawrth. Bydd y bwrdd iechyd yn parhau â ffrydiau gwaith amrywiol eraill i gefnogi'r sefyllfa hon gan gynnwys allanoli,

adolygu effeithlonrwydd theatr a defnyddio a gweithredu argymhellion Gwneud Pethau'n lawn y Tro Cyntaf.

Mae gan y bwrdd iechyd gynlluniau ar waith i gynnal y sefyllfa hon wrth symud ymlaen i 2025-26, gan weithio'n lleol ac yn rhanbarthol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i fynd i'r afael ag amseroedd aros offthalmoleg. Mae'r bwrdd iechyd wedi derbyn £800,000 yn chwarter un ar gyfer trin 600 o gleifion cataractau.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Nid yw perfformiad R1 yn y bwrdd iechyd wedi cyrraedd 50% dros y 12 mis diwethaf. Er mwyn gwneud y gwelliannau angenrheidiol, bydd y bwrdd iechyd yn parhau i allanoli cleifion sy'n aros yn hir lle bo modd, yn cynnal clinigau ar benwythnosau ar gyfer cleifion nad ydynt yn addas i'w hallanoli ac yn defnyddio argaeledd theatrau trwy ôl-lenwi llefydd gwag mewn sesiynau.

Ym mis Chwefror 2025, agorodd y bwrdd iechyd theatr Surgi-Cube yn Ysbyty Tywysoges Cymru i gynyddu'r capasiti ar gyfer llawdriniaethau cataract. Dechreuodd y gwaith hwn ym mis Mawrth 2025.

Fel rhan o gyllid wedi'i glustnodi gan Lywodraeth Cymru a ddyfarnwyd ym mis Hydref 2024, derbyniodd y bwrdd iechyd £4.6m ac mae wedi ymrwymo i gyrraedd targed o ddim un claf yn aros dros 104 wythnos erbyn diwedd mis Mawrth 2025. Mae'r bwrdd iechyd wedi cyflawni hyn ar gyfer offthalmoleg.

Yn 2024, sefydlodd y bwrdd iechyd banel adolygu niwed offthalmoleg i oruchwylio ac adolygu'r holl ddigwyddiadau offthalmoleg a adroddwyd yn y bwrdd iechyd. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r bwrdd iechyd wedi mynd i'r afael â'r adolygiad o ddigwyddiadau diogelwch cleifion offthalmoleg hwyr ac ymchwiliadau.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Nid yw perfformiad R1 yn y bwrdd iechyd wedi cyrraedd 50% dros y 12 mis diwethaf. Er mwyn gostwng amseroedd aros a gweld cleifion yn gynt, mae'r bwrdd iechyd yn amserlennu cleifion glawcoma a retina meddygol wedi'u dilysu'n glinigol i'w gweld mewn clinigau rhithwir yn hytrach nag ar safleoedd ysbytai. Ym mis Ionawr 2025, gwelwyd 493 o gleifion glawcoma a 206 o gleifion retina meddygol fel hyn.

Ar ddiwedd 2024, mae'r bwrdd iechyd wedi gweithredu optometreg WGOS 4 a 5 a'r llwybr presgripsiynu annibynnol. Mae gwasanaeth WGOS 5 y bwrdd iechyd ar hyn o bryd yn cael ei gynnal gyda 23 practis presgripsiynu annibynnol ac mae'n gweithio i gynyddu hyn.

Mae llwybr WGOS 4 wedi atal 278 o atgyfeiriadau rhag cyrraedd gwasanaethau llygaid ysbyty ers mis Tachwedd 2024 ac ar hyn o bryd mae'n eu rheoli o fewn optometreg gofal sylfaenol.

Mae gan y bwrdd iechyd gyfran uchel o optometryddion sydd â chymwysterau ychwanegol ac mae wedi bod yn rhagweithiol wrth gynnig cymorth a lleoliadau clinigol fel y gall optometryddion gwblhau eu hyfforddiant ac ennill cymwysterau ychwanegol.

Fel rhan o'r £7.4m o gyllid a dderbyniodd rhanbarth y de-ddwyrain i ostwng amseroedd aros, dyrannwyd £836,000 i'r bwrdd iechyd i gefnogi gostyngiadau lleol mewn amseroedd aros offthalmoleg ac i gyrraedd sefyllfa o ddim un achos ddiwedd mis Mawrth. Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd 68 o lwybrau agored yn aros dros 104 wythnos ar lwybr Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, 95% yn is na'r sefyllfa ym mis Medi 2024.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae'r bwrdd iechyd yn blaenoriaethu datblygu gwasanaethau effeithiol i bobl ag anghenion gofal llygaid gyda'r meysydd gwasanaeth hyn wedi'u hamlygu fel maes cyflawni craidd o fewn y Cynllun Tymor Canolig Integredig a gymeradwywyd gan y Bwrdd.

Er mwyn gwella perfformiad R1, mae'r bwrdd iechyd yn cynnig apwyntiadau cleifion risg uchel addas mewn canolfannau diagnostig a thriniaeth offthalmig gofal sylfaenol y tu allan i glwstwr iechyd lleol y claf. Mae'n ofynnol i bob practis optometreg yn y bwrdd iechyd ddarparu isafswm lefel o wasanaeth WGOS 1 a WGOS 2.

Fel rhan o'r cyllid ychwanegol a ddyrannwyd yn 2024-25, derbyniodd y bwrdd iechyd £769,000 i gefnogi gwelliannau mewn amseroedd aros offthalmoleg. Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd 675 o lwybrau agored gydag aros dros 104 wythnos ar lwybr Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth. Mae hyn yn ostyngiad o 35% o'i gymharu â diwedd Medi 2024.

Ar gyfer 2025-26, mae'r bwrdd iechyd wedi derbyn £5m ychwanegol i gefnogi gwelliannau parhaus mewn amseroedd aros. Fel rhan o'r dyraniad, mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gyflawni'r strategaeth gofal llygaid genedlaethol ac yn benodol cyfleoedd WGOS 4 yn ystod mis Ebrill.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Er bod y bwrdd iechyd wedi cynnal perfformiad uwchlaw 60%, mae'n cydnabod bod angen gwelliant sylweddol ac mae wedi nodi'r camau canlynol fel rhan o'i gynllun gwella dros y 12 mis nesaf:

- Trosglwyddo llawdriniaethau cataract oedolion dan anaesthetig lleol i amgylchedd gwell gyda seilwaith mwy dibynadwy a datblygu llwybrau safonedig Gwneud Pethau'n lawn y Tro Cyntaf
- Datblygu achos busnes cyfalaf i gynyddu'r capasiti ar gyfer triniaethau cataract, gan weithio ymhellach tuag at safonau Gwneud Pethau'n lawn y Tro Cyntaf
- Gweithio gyda chydweithwyr ym Mhrifysgol Caerdydd i archwilio'r potensial o ddefnyddio adnoddau a chapasiti clinigol ar gyfer gofal diagnostig cleifion Retinopathi Diabetig
- Cynyddu capasiti ar gyfer diagnosteg a safoni llwybrau gofal parhaus ar gyfer cleifion glawcoma.

Oherwydd pryderon diogelwch a nodwyd gyda gwasanaethau offthalmoleg, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi gofyn am adolygiad annibynnol i'w Gwasanaeth Dirywiad Macwlaidd Acíwt gan Goleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr ym mis Hydref 2024. Nid yw'r adroddiad wedi dod i law eto, ond y disgwyl yw bod hynny ar fin digwydd, a bydd ei argymhellion yn cael eu gwreiddio mewn Strategaeth Glinigol ar gyfer Offthalmoleg, i ddarparu'r weledigaeth a'r strwythur ar gyfer y Cynllun Cyflawni Gwasanaethau.

Yn 2024-25, derbyniodd y bwrdd iechyd £474,459 ychwanegol i gefnogi'r gwaith o ostwng amseroedd aros offthalmoleg, ynghyd â chyllid fel rhan o'r cynlluniau rhanbarthol. Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd 477 o lwybrau agored gydag amseroedd aros dros 104 wythnos ar lwybr Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, gostyngiad o 71% o'i gymharu â diwedd mis Medi 2024.

Ar gyfer 2025-26, mae'r bwrdd iechyd wedi derbyn £2.783m ychwanegol yn Chwarter un i gefnogi gostyngiadau lleol mewn amseroedd aros gyda'r disgwyliad o ddarparu cyfleoedd retina meddygol o WGOS 4 yn ystod mis Ebrill, yn ogystal â bod yn rhan o'r datrysiad rhanbarthol, y derbyniodd rhanbarth y de-ddwyrain £3m tuag ato.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi bod yn effeithiol yn gwella perfformiad R1 i dros 70% drwy wella llwybrau a gweithredu'r llwybrau cymunedol. Mae eu gwasanaeth retina meddygol wedi amlygu integreiddio â'r defnydd o dimau optometreg yn y gymuned trwy lwybrau WGOS 4, a nodwyd gwelliannau wrth ddefnyddio'r tîm aml-ddisgyblaethol sy'n darparu clinigau IVT ac yn gweithio hyd eithaf eu trwydded.

Mae'r bwrdd iechyd wedi cynnal lefel o ddim cleifion yn aros dros 52 wythnos am apwyntiad cleifion allanol cyntaf ers mis Mehefin 2023. Mae'r bwrdd iechyd wedi dechrau treialu model clinig cyn-asesu ym maes gwasanaethau cataractau gyda phrosesau clinigol newydd sy'n anelu at gynyddu capasiti cleifion o 50%.

Ar ddiwedd mis Mawrth, nid oedd unrhyw lwybrau agored gydag amseroedd aros dros 104 wythnos ar lwybr Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth. Mae'r bwrdd iechyd wedi cynnal y lefel honno ers mis Awst 2024.

Fel rhan o'r gwaith parhaus i ostwng rhestrau aros, mae'r bwrdd iechyd yn gweithredu newidiadau i reoli llawdriniaethau cataract trwy ddileu dechrau gwaith yn hwyr a gorffen gwaith yn gynnar ar gyfer ymgynghorwyr a llawfeddygon er mwyn cynyddu nifer y cataractau ar restr a thrwy weithredu wyth sesiwn ymyriadau niferus unrhyw gymhlethdod (HVAC).